

A PHP Error was encountered

Severity: Notice

Message: Trying to get property of non-object

Filename: helpers/article_helper.php

Line Number: 303

Backtrace:

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/helpers/article_helper.php

Line: 303

Function: _error_handler

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/controllers/Article.php

Line: 132

Function: transformToXml

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/controllers/Article.php

Line: 78

Function: xsltTransform

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/index.php

Line: 315

Function: require_once

DAFYDD DDU ATHRO o HIRADDUG (cyn 1400), g r y cysylltir ei enw â'r gramadeg neu'r 'llyfr cerddwriaeth' cyntaf sydd gennym

Enw: Dafydd Ddu Athro O Hiraddug


Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: g r y cysylltir ei enw â'r gramadeg neu'r 'llyfr cerddwriaeth' cyntaf sydd gennym

Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Griffith John Williams

hynny yw, llyfr sy'n trafod celfyddyd cerdd dafod, ac a gynnwys hefyd dalfyriad Cymraeg o'r gramadeg Lladin a ddefnyddid yn ysgolion yr Oesoedd Canol. Ni wyddom odid ddim amdano, ond gan fod Moel Hiraddug yn enw ar fryn yn ymyl Rhuddlan, efallai fod [Syr Thomas Williams](#) yn iawn pan ddywed, yn Llsgr. Mostyn 110, mai g r 'O Degeingyl ' ydoedd. Myn y [Dr. John Davies](#) o Fallwyd yn Llsgr. Peniarth 49 ei fod yn ' archdeacon of Diserth,' a chan ei fod yn cael ei alw'n ' athro ', a'r gair hwnnw (fel y dywedir yn y llyfr cerddwriaeth) weithiau'n golygu math arbennig o glerigwr, efallai fod y [Dr. Davies](#) yn cofnodi rhyw draddodiad a glywsai yn ei fachgendod yng nghyffiniau dyffryn Clwyd. Yn y 18fed ganrif, mynnid fod ei feddfaen yn eglwys Tremeirchion, ac arno arysgrif yn cynnwys yr enw David F'Korel, ond y mae hynny'n drwyadl ansicr. Ffynnai traddodiad amdano fel g r hyddysg ac fel dewin, a mynnai'r enwog [Dr. John Dee](#) yn 1582 mai ef oedd Roger Bacon.

Yr oedd ysgolheigion yr 16eg ganrif yn priodoli'r ' *llyfr cerddwriaeth* ' iddo ef ac i [Einion Offeiriad](#). Blodeuai [Einion](#) tua dechrau'r 14eg ganrif, ac felly awgrymir weithiau mai ychwanegu at lyfr [Einion](#) a wnaeth Dafydd Ddu. Ni sonnir am y ddau yn y copïau cynharaf ond fel gw r a luniodd dri mesur - tri chopi yn mynnu mai gwaith [Einion](#) oeddynt, a'r trydydd (sef yr un a geir yn Llsgr. Peniarth 20, a ysgrifennwyd c. 1400, neu efallai cyn hynny) yn dywedyd mai Dafydd Ddu Athro a'u dychmygodd. Priodolir cywyddau iddo hefyd. Ond efallai mai'r peth mwyaf diddorol a gysylltir â'r enw ydyw'r cyfieithiad Cymraeg o ' *Wasanaeth Mair*,' a gyhoeddwyd yn y [The Myvyrian Archaiology of Wales](#) . Ni chyfeirir ato yn y copïau cynharaf, ond dywed y [Dr. John Davies](#) yn 1631 mai ei waith ef ydyw 'hyd y mae pawb yn tybieid.' Ond nid oes neb hyd yn hyn wedi datrys y broblem sydd yngl n â'r cyfieithiad hwn.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

Thomas Pennant, , 1883, ii, 134

Edward Jones, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards ...*, 1808, 16

Archaeologia Cambrensis, 1897, iii

G. J. Williams, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (1934), 1934, xiii-xlii

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 14-5

An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire. Vol. 2 - County of Flint (1912), eitem 244

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd Ddu o Hiraddug](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5208379](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

